# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024**

**DYDDIAD** **10 Ionawr 2024**

**GAN** **Lesley Griffiths AS/MS**

Bydd Aelodau o'r Senedd yn dymuno cael gwybod fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig arfer pŵer gwneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gosodwyd yr Offeryn Statudol (OS) uchod gerbron Senedd y DU gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 9 Ionawr 2024 drwy arfer pwerau a roddwyd gan:

1. paragraff 11A o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011;
2. Erthyglau 144(6) o Reoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor, a pharagraffau 2 a 3 o'r Atodiad i'r Rheoliad hwnnw, sy'n ymdrin â rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir er mwyn sicrhau bod y gyfraith ar fwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion yn cael ei chymhwyso.

Yr OS fydd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth i weithredu carreg filltir gyntaf Model Gweithredu Targed y Ffin (TOM) o 31 Ionawr 2024 ymlaen. Pwrpas yr OS yw cyflwyno ardystiadau iechyd wrth fewnforio cynhyrchion anifeiliaid, planhigion, a chynhyrchion planhigion sy'n ganolig eu risg, a bwyd a bwyd anifeiliaid uchel eu risg nad ydynt yn dod o anifeiliaid, o'r Undeb Ewropeaidd. Bydd hefyd yn dileu'r esemptiad rhag-hysbysu ar gyfer nwyddau o ynys Iwerddon sy'n gynhyrchion anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion planhigion canolig eu risg. Yn ogystal, bydd yn diwygio dyddiad terfynu'r Cyfnod Graddoli Trosiannol (TSP), o 31 Ionawr 2024 tan 29 Ebrill 2024 er mwyn i ail gam Model Gweithredu Targed y Ffin fedru dechrau o 30 Ebrill 2024 ymlaen. Nid ydym wedi cytuno eto ar ddyddiad ar gyfer dechrau cynnal gwiriadau ffisegol ar fewnforion o Iwerddon, felly rwy'n rhagweld y bydd angen estyn y Cyfnod Graddoli Trosiannol unwaith yn rhagor, o ddiwedd mis Ebrill tan ddyddiad y cytunir arno.

Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 9 Ionawr 2024 a byddant yn dod i rym ar 30 Ionawr 2024.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru:**

Mae Rheoliadau 2024 yn deillio o'r cytundeb ar y Model Gweithredu Targed y Ffin a gyhoeddwyd ym mis Awst 2023. Nid yw Rheoliadau 2024 yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt a fydd gan Lywodraeth y DU ar fioddiogelwch yn y dyfodol.

Nid yw'r Rheoliadau'n lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd, ac nid ydynt yn creu, diwygio nac yn dileu unrhyw swyddogaethau a roddwyd i Weinidogion Cymru.

Hoffwn sicrhau'r Senedd mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru ar faterion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, o dan rai amgylchiadau, mae manteision mewn cydweithio â Llywodraeth y DU pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny. Y tro hwn, rwyf wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod wrth newid polisi yn y dyfodol, er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, cydgysylltu gwaith ar draws y DU, ac er cysondeb.

**Diben yr offeryn**

Pwrpas Rheoliadau 2024 yw amddiffyn bioddiogelwch, sicrhau bod bwyd yn ddiogel a chefnogi masnach, drwy gyflwyno carreg filltir gyntaf Model Gweithredu Targed y Ffin y cytunwyd arno gan bob un o weinyddiaethau Prydain Fawr.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith Rheoliadau 2924, ar gael yma.

https://www.legislation.gov.uk/uksi/2024/20/made

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud yr offeryn hwn o ganlyniad i'r cytundeb rhwng y tair gweinyddiaeth ym Mhrydain Fawr ar Fodel Gweithredu Targed y Ffin i gyflwyno cyfundrefn glanweithiol a ffytoiechydol cydlynol a chyson ar gyfer nwyddau a fewnforir i Brydain Fawr er mwyn amddiffyn bioddiogelwch a sicrhau bod safonau diogelwch bwyd yn cael eu cynnal.